



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Bwletin i Ddysgwyr

Ceredigion Powys a Sir Gâr

Hydref 2025





Croeso'n ôl

Mae'r tymor newydd wedi dechrau!
Croeso mawr i ddysgwyr newydd ac i
ddychwelwyr, pob lwc gyda'r dysgu.

'Dyn ni'n cynllunio Sadyrnau Siarad
un diwrnod wyneb-yn-wyneb yn
Aberystwyth/ Aberteifi, Caerfyrddin,
Aberhonddu/ Llandrindod a'r Trallwng
ar 15 Tachwedd - bydd rhagor o
wybodaeth i ddilyn eto.

Mae digonedd o gyfleodd i ymarfer
siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a
dych chi'n gallu gweld rhai ohonyn nhw
yn y bwletin' yma.

Tîm Dysgu Cymraeg
Ceredigion Powys Sir Gâr
dysgucymraeg@aber.ac.uk

Welcome back!

The new term has started! We warmly
welcome brand new learners as well
as existing learners - croeso!

We are planning in-person one day
Saturday Schools in Aberystwyth/
Cardigan, Carmarthen, Brecon/
Llandrindod Wells and Welshpool
on the 15th of November, watch this
space for more details.

There are plenty of opportunities to
practise speaking Welsh outside of the
classroom and some of them are
listed in this bulletin.

Learn Welsh Team
Ceredigion Powys Carmarthenshire
learnwelsh@aber.ac.uk

Cwrs Haf Dwys Aberystwyth Haf 2025

Draw dros y don mae bro dirion nad ery
Cwyn yn ei thir, ac yno ni thery
Na haint na henaint fyth mo'r rhai hynny
A ddel i'w phur, rydd awel, a phery
Pob calon yn hon yn heiny a llon,
Ynys Afallon ei hun sy felly.

Adroddiad Felicity Roberts, Cydlunydd y Cwrs Haf Dwys



Cawsom gwrs gwyh eleni gyda mwy nag erioed o bobl wedi cofrestru arno – 187 i gyd. Roedd 17 gwlad yn cael eu cynrychioli yno, a bu 16 o diwtoriaid yn dysgu arno.

Nod y cwrs yn sylfaenol ydy galluogi pobl i gyflawni un lefel mewn pedair wythnos neu hanner lefel mewn pythefnos -tipyn o her, ond llwyddwyd i gael y maen i'r wal. Ar ben y boddhad hynny fe gafwyd mwyniant a chryn dipyn o hwyl.

Fe gynhaliodd Elin a Rhiannon nosweithiau lle roedd gemau iaith hwyliog, a oedd yn rhyfeddol o addas as draws yr ystod hyfedredd ieithyddol. Rhan o gyfrinach eu llwyddiant oedd eu bod yn rhyngweithiol iawn, a grŵp cerddorol Aeron Pughe (Ben Dant!) yn ychwanegu at y cyfan.

Fe'n cyfareddwyd gan Mererid Hopwood, ein hybarch Archdderwydd, yn ei ffordd ddihafal ei hun, a'r gynulleidfa luosog wedi ei swyno ganddi.

Cawsom nosweithiau lle roedd cyfuniad o gerddoriaeth hyfryd, croeso Cymreig a chyfle i sgwrsio'n anffurfiol yn rhan o'r hyn oedd yn boddhau. Diolch i gymuned eglwys Gymraeg y Santes Fair, cerddorion Twmpath Aberystwyth, Côr Cyd, Eleri Turner ar y delyn, Nic Davalan a'i griw ar amrywiol offerynnau, Rhiannon Sparrow ar yr acordion a'r seleb enwog Tara Bandito. Diolch i Richard Vale am drefnu'r noson honno.

Yn ogystal â'r mwynhad a gafwyd yn dawnsio o'i hochr hi yn y twmpath dawns hynod hwyliog, yr un fath ag arfer, roedd y Noson Lawen yn un o

binacrau'r adloniant, rhwng y gerddoriaeth wych, dawns y tiwtoriaid, a'u sgets yn cael yr ystafell i gyd yn rowlio chwerthin.

Ar noson olaf y Cwrs roedd yn braf iawn cael bod yn Neuadd Pantycelyn, y neuadd eiconig Gymraeg ar ei newydd wedd. Dilynwyd gwylio penodau o'r gyfres 'Y plas' wedi eu hisdeitlo'n fedrus, â phryd o fwyd a oedd yn wledd o ddanteithion blasus.

Ar ben y cyfan uchod gwerthfawrogwyd cael ymweliadau hynod ddefnyddiol gan staff Geiriadur Prifysgol Cymru, yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddeall sut i gael y gorau o'r geiriadur.

Trefnwyd ymweliad ag un o sefydliadau pwysicaf Aberystwyth, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel rhan o'r Cwrs. Cafwyd croeso cynnes yno gan Dyfan Graves, ac fe gafodd pawb eu cyfareddu gan Peter Lord wrth gael eu tywys ganddo o gwmpas yr arddafngosfa 'Dim Celf Gymreig?'.

Un o bethau cwbl unigryw Cwrs Haf Dwys Aberystwyth yw'r ymweliadau a geir bob prynhawn dydd Mercher gan siaradwyr rhugl o'r gymuned. Maent yn rhoi o'u hamser i sgwrsio â'r dysgwyr mewn grwpiau bach a drefnir gan y tiwtoriaid. Dywed nifer mai dyma uchafbwynt yr wythnos iddyn nhw.

Ymlaen â ni at y miliwn o siaradwyr Cymraeg i Gymru!

Felicity Roberts, Awst 2025



Cwrs Haf Dwys Aberystwyth Haf 2025



Sgwrs a Phaned

gyda siaradwyr newydd yn
rhithiol am 10 yb

09/10/25

06/11/25

04/12/25

jen@merchedywawr.cymru



Siawns am Sgwrs: dysgucymraeg.cymru

Nos Lun, 20 Hydref 7-8pm

Ymunwch â thîm y Ganolfan Dysgu Cymraeg a Mair Lenny Turner i ddysgu mwy am beth sy'n newydd ar dysgucymraeg.cymru ac i gael sgwrs mewn grwpiau bach.

Croeso i ddysgwyr ar bob lefel.

This virtual event will give learners at all levels an insight to new materials on learnwelsh.cymru and have conversation practice.

Croeso i bawb!



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Y MUNWCH Â NI YN Y STIWDIO! COME JOIN US IN THE STUDIO!

Caerdydd / **Cardiff**

afanti

6:30yh / **6:30pm**

Tocynnau am ddim - 16+ / **Free tickets - 16+**
Diod am ddim wrth y drws / **Free drink on arrival**

Cysylltwch â: / **Contact:**

RHAGLENJONATHAN@AFANTIMEDIA.TV

Dyddiadau Stiwdio /
Studio Dates:



3 Nov



10 Nov



18 Nov



25 Nov



Rhannu Geiriau


Grŵp Darllen ar Zoom
Welsh Reading Club

6pm bob yn ail nos Iau
Every other Thursday evening

dianelnorrell@hotmail.com



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



Clwb anffurfiol ar-lein i sgwrsio yn Gymraeg

Friendly, informal online chat group to practise your Cymraeg

'Dyn ni'n cwrdd ar Zoom ar fore Mawrth dwywaith y mis

We meet on zoom on Tuesday mornings - twice a month

Croeso i bob lefel All levels welcome

Cwrdd Next meetings

Bore Mawrth 10:30-11:30 Tuesdays

16 a 30 Medi, 14 Hydref, 4 a 18 Tachwedd, 2 a 16 Rhagfyr 2025

Cyswllt | Contact Mererid Roberts mhr7@aber.ac.uk

Clwb Hwbb **Maladwyn**

Eisiau ymarfer eich sgiliau ysgrifennu a darllen?

Mae Clwb E-bostio ar gael, i ddysgwyr lefel Mynediad a Sylfaen.

Ewch i dysgucymraeg.cymru am fwy o wybodaeth.

Would you like to practise your writing and reading skills?

Join our Clwb E-bostio, for Entry and Foundation level learners.

Sign up at learnwelsh.cymru



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



CYMRAG
Dysgu
Cymraeg

DATHLU DYSGU CYMRAEG

WYTHNOS DATHLU DYSGU CYMRAEG 12 - 19 HYDREF 2025

Between 11 and
17 October, BBC
Radio Cymru and
S4C will host a
week-long
celebration of
learning Welsh.

Rhwng 13 ac 19 Hydref, bydd BBC Radio Cymru ac S4C yn cynnal Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg.

Bydd lleisiau dysgwyr a siaradwyr newydd i'w clywed ar BBC Radio Cymru a S4C drwy'r wythnos.

Os dych chi eisiau clywed straeon am ddysgwyr, a mwynhau eitemau ar gyfer dysgwyr, cofiwch wrando!

Digwyddiadau:

Cwrdd â'r cyflwynwyr

Dyma gyfle i fwynhau sgwrs gyda rhai o gyflwynwyr BBC Radio Cymru – Beti George, Heledd Cynwal a Marc Griffiths.

Pryd? 14 Hydref am 7pm ar Zoom

I gofrestru, dilynwch y ddolen: [Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg](#) - Cwrdd â'r cyflwynwyr! | [Dysgu Cymraeg](#)

Teithiau

Mae S4C yn cynnig cyfleoedd arbennig i fynd ar deithiau tu ôl i'r llen i ddysgu mwy am y cyfryngau Cymraeg, sef:

BBC Cymru, Sgwâr Canolog, Caerdydd
Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin
I archebu eich lle, dilynwch y ddolen: [Wythnos Dathlu Dysgu | Dysgu Cymraeg | S4C](#)

S4C

Bydd cyfres newydd o Iaith ar Daith yn dechrau ar 12 Hydref am 8pm. Y cyn-chwaraewr rygbi Alun Wyn Jones sy'n dysgu Cymraeg gyda help yr actor Steffan Rhodri.

Bydd cyfres newydd Scott Quinnell, 'Dim Cwsg i Quinnell', hefyd yn dechrau yn ystod yr wythnos.

Cadwch lygad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol S4C ac S4C Dysgu Cymraeg am gynnwys diddorol a hwyliog yn ystod yr wythnos hefyd.

**RHO GYNNIG ARNI!
GIVE IT A GO!**

DIWRNOD
**SHWMAE
SU'MAE**
DAY

**HYDREF 15
OCTOBER 15**

**@DIWRNODSHWMAESUMAE
#SHWMAESUMAE25
WWW.SHWMAE.CYMRU**

Beth yw Diwrnod Shwmae Su'mae?

Diwrnod arbennig, ar 15 Hydref, i annog pawb i ddechrau pob sgwrs gyda Shwmae neu Su'mae. Cyfle i ddatlu'r Gymraeg yn eich cymuned, gweithle, ysgol neu goleg.

Mae'n agored i bawb, o bob oedran, o bob cwr o Gymru. Does dim rhaid i chi siarad Cymraeg yn rhugl i gymryd rhan!

Ble a sut mae cymryd rhan?

Yn eich ysgol, swyddfa neu glwb. Mewn siop, yn y parc, ar y stryd. Ble bynnag sy'n gyfleus i chi! Beth am gynnal eich digwyddiad eich hun - bore coffi, cyngerdd neu sesiwn celf a chrefft?

Rhedeg busnes? Beth am gynnig gostyngiad i gwsmeriaid sy'n sgwrsio gyda chi yn Gymraeg? Sefydlwch grŵp i drefnu gweithgareddau yn lleol.

What is Diwrnod Shwmae Su'mae?

A dedicated day, on 15 October, to encourage people to start every conversation with Shwmae or Su'mae. The chance to celebrate the Welsh language in your community, workplace, school or college.

It's open to everyone, wherever you are, whatever your age! You don't need to be able to speak Welsh fluently to take part!

How and where do I take part?

At school, at work or at an event. In the park, on the street or at the shops. Wherever is convenient for you! Why not hold your own event - a coffee morning, concert or craft session?

Running a business? Why not offer a discount to customers who chat with you in Welsh? Set up a group to organise more events locally in Welsh.

Ceredigion-Powys-Sir Gâr

Mae "Siarad" yn gynllun gwirfoddol sy'n dod â siaradwyr rhugl a dysgwyr (lefel Canolradd+) at ei gilydd i sgwrsio'n anffurfiol. Mae'r sesiynau yn gyfle i ddysgwyr allu ymarfer eu Cymraeg a magu hyder - nid gwersi ydyn nhw.

Dych chi'n siaradwr newydd?

ar lefel Canolradd 2 neu Uwch ac eisiau ymarfer sgwrsio?

Ein gobaith yw i baru chi â siaradwr rhugl er mwyn cwrdd am tua deg awr (dros yr wythnosau a misoedd nesaf). Nod y cynllun yw i gynyddu eich hyder a'ch cyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio eich Cymraeg yn lleol.

Ar ôl cael eich paru allwch chi gwrdd mewn person neu'n rhithiol. Gobeithio bydd modd i chi fynychu digwyddiadau gyda'ch gilydd falle dros banded, yn y gymuned, i weld gig neu ddrama neu fel rhan o gymdeithas. Rhaid i chi gwrdd mewn llefydd cyhoeddus.

I gofrestru ar y cynllun yma, cofrestrwch fan hyn
<https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/cynllun-siarad/>
Mae croeso i chi ebostio Debbie Gilbert am fwy o fanylion
dlg3@aber.ac.uk, neu ffoniwch 0800 876 6975.

"Siarad" is a voluntary scheme that brings fluent speakers and learners (Intermediate level+) together to chat informally. To register, learners need to be confident in holding a fairly fluent conversation.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Siarad.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

Arholiadau CBAC Defnyddio'r Gymraeg WJEC Examinations

Cynhelir ein arholiadau wyneb yn wyneb - bydd y lleoliadau yn dibynnu ar niferoedd. Mae manylion arholiadau CBAC ar gael wrth glicio'r lefel priodol. Gall profion llafar yn unig gael eu cynnig ar-lein. Our exams will be held in-person with locations depending on the demand. Speaking tests alone will be available on-line. For WJEC examination information click on the appropriate level.

Am ragor o wybodaeth ebostiwch
E-mail for more information ccm@aber.ac.uk

2025

	Dyddiad Arholiad	Dyddiad Cau	Cofrestru
<u>Mynediad Ionawr</u>	Gwener, 30 Ionawr 2026	5 Rhagfyr 2025	i ddilyn eto
<u>Mynediad Dydd</u>	Mawrth, 9 Mehefin 2026	27 Chwefror 2026	i ddilyn eto
<u>Mynediad Nos</u>	nos Fercher, 10 Mehefin 2026	27 Chwefror 2026	i ddilyn eto
<u>Sylfaen</u>	Gwener, 19 Mehefin 2026	27 Chwefror 2026	i ddilyn eto
<u>Canolradd</u>	Gwener, 12 Mehefin 2026	27 Chwefror 2026	i ddilyn eto
<u>Uwch</u>	Mercher a Iau, 17 a 18 Mehefin 2026	27 Chwefror 2026	i ddilyn eto



Digwyddiadau Ceredigion

PANED A SGWRS

I DDYSGWYR CYMRAEG A SIARADWYR NEWYDD

Sgwrs fer a chyfle i sgwrsio ac ymarfer ein Cymraeg dros baned



Caffi Llyfrgell
Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth

10.30 bore Sadwrn

**CROESO MAWR I BAWB
O BOB GALLU!**

Eglwys Eifenglydd
Aberystwyth

CLWB CLONC Tŷ GLYN

bob dydd Iau, o 17 Gorffennaf 2025 10:30am

Grŵp sgwrsio Cymraeg wythnosol newydd i'ch cynorthwyo i wella eich sgiliau siarad Cymraeg. Ein nod yw tyfu eich hyder mewn amgylchedd hapus. Croeso i bob lefel, o ddechreuwyd i siaradwyr rhugl!

A new weekly Welsh conversation group to support your Welsh speaking skills. Our aim is to grow your confidence in a friendly setting. All levels welcome, from beginners to fluent speakers!

Am ragor o wybodaeth | **For more information**
events@tyglyn.co.uk

Tŷ Glyn



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Uywodaeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Digwyddiadau Ceredigion



CALENDR CERED - HYDREF 2025



SUL	LLUN	MAWRTH	MERCHER	IAU	GWENER	SADWRN
Allwedd: Oedolion Plant Babanod	29	30 Coffi a Chlonc Aberaeron	1 Sach Stori Ciliau Aeron Siop Siarad Penparcau Clwb Lego Llechryd	2 Clwb Clonc Tŷ Glyn	3	4 Ar Gerad Tywyn
Key: Adults Children Toddlers	6 Yr Awr Gymraeg Llandysul Clwb Lego Aberaeron	7 Coffi a Chlonc Aberaeron Clwb Lego Aberystwyth	8 Sach Stori Ciliau Aeron	9 Siop Siarad Llanbed Sesiwn Siarad Llangeitho	10 Gig Ani Glass Aberystwyth	11
12	13 Yr Awr Gymraeg Llandysul	14 Coffi a Chlonc Aberaeron	15 Diwrnod Shwmae Su'mae	16 Clwb Clonc Tŷ Glyn	17	18 Dal Ati Tre'r Ddôl
19	20 Yr Awr Gymraeg Llandysul Clwb Lego Cei Newydd	21 Coffi a Chlonc Aberaeron	22 Sach Stori Ciliau Aeron	23 Clwb Clonc Tŷ Glyn	24	25
26	27 Yr Awr Gymraeg Llandysul Gweithdy Lego Ystrad Fflur	28 Coffi a Chlonc Aberaeron	29 Sach Stori Ciliau Aeron Gweithdy Lego Bandstand Aberystwyth	30 Clwb Clonc Tŷ Glyn Gweithdy Lego Calan Gaeaf Theatr Felinfach	31	1 Ar Gerad Porthmadog

Clwb C Aberystwyth

Home Café, Heol y Wig | Pier Street, Aberystwyth

Bob bore Iau Every Thursday 11:00 - 12:00

Cysylltwch â Contact Jacqueline Willmington

j.willmington@btinternet.com

Croeso i bawb, yn enwedig i ddysgwyr lefel Mynediad Sylfaen a Chanolradd!

All learners are welcome, especially those on Entry, Foundation & Intermediate levels



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



CYMDEITHAS CEREDIGION

Caffi Emlyn, Tan-y-groes
Nos Wener 7fed Tachwedd 7.30pm

Hedd Ladd Lewis

Rhyfel y Degwm
a Pegi Lewis o Drewyddel, Arwres y Degwm



Mynediad £5 os nad ydych yn aelod
(£10 am y flwyddyn gyfan). Arian parod yn unig.

CROESO CŶNNES I BAWB

Digwyddiadau Ceredigion

Castell Aberteifi

Mwynhau'r Gymraeg

25 / 02 / 2026

11:00yb - 12:30yp
2:00yp - 3:30yp

gyda Hedd Ladd Lewis
yn tywys - cyfle i fynd tu
ôl i ddrysau caeëdig



i gofrestru: ardroed@mentrauiath.cymru



MENTRAU IAITH



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Awmori gan
Llywodraeth Cymru
funded by
Welsh Government



SESIWN SIARAD: LLANGEITHO

Ymunwch gyda ni am ddiod a sgwrs yn Gymraeg yn y dafam
Dewch i ymarfer eich Cymraeg mewn awyrgylch hwyliog ac ysgafn

Join us for a drink and a chat in Welsh at the Three Horseshoes
Practice your Welsh in a fun and light-hearted atmosphere



Gwesty'r Tair Pedol | 19.00 | Nos Iau 9.10.25
Croeso i bawb! Welcome to everyone!

Cerddwyr Cylch Teifi

10:30 - 12:30 **Sadwrn unwaith y mis | Monthly on Saturdays**

Sadwrn 18 Hydref Cei Newydd / New Quay

Clwb cerdded fisol, croeso i bob lefel

Monthly walking club, all levels welcome

Cyswllt | Contact philippa.gibson@gmail.com 01239 654561

Digwyddiadau Ceredigion



DIWRNOD SHWMAE

Dydd Mercher Hydref 15 2025

Sach Stori

Tŷ Glyn, Ciliau Aeron | 10yb

Sgwrsio, canu, celf a joio i fabanod a rhieni/gwarchodwyr
Chat, song, art and fun for babies, toddlers and parents/guardians

Bore Coffi

Yr Hwb, Penparcau | 11yb

Dechreuwch eich diwrnod gyda dishd a sgwrs yn Gymraeg
Start your day with a cuppa and a chat in Welsh

Hwyl a Hamdden

Theatr Felinfach | 1.30yp

Dished, sgwrs ac Angharad Lan Lloft yn trafod ffasiwn yr Hydref
A cuppa, chat and Angharad Lan Lloft discussing autumn fashion

Sesiwn Siarad

Tafam Gwarcefel, Prengwyn | 7.00yh

Sgwrsio dros beint a chanu clasuron Cymraeg gyda Hyfryd lawn
Chat over a pint and Welsh pub singalongs with Hyfryd lawn

Dechrau bob sgwrs yn Gymraeg
Start every conversation in Cymraeg



SACH STORI: CILIAU AERON

Sesiwn Gymraeg rhad ac am ddim
Ar gyfer babanod, plant ifanc a'u rhieni/gwarchodwyr
Stori a sach llawn propiau, caneuon a gweithgareddau hwyliog



Tŷ Glyn | 10.00 | Pob dydd Mercher dechrau 17.9.25
I gofrestru: hannah.james@ceredigion.gov.uk

THE GENTLE GOOD

Cefnogaeth gan:

Rhiannon O'Connor



Y Seler, Aberteifi
Nos Wener Tachwedd 7fed


£15/£10

thegentlegood.com

Noson Allan
Night Out



tocynnau ar gael o
theatrfelinfach.ticketsolve.com



ANI GLASS

TAITH PHANTSMAGORIA

+ TAI HAF HEB DRIGOLYN

Y
CWPS

ABERYSTWYTH

10.10

£8ADV / £10OTD



AR GERAD: TYWYN

Taith gerdded Gymraeg ar hyd yr arfordir a glannau Afon Dysynni
Cylchdaith 10km gwastad llawn hanes, natur a golygfeydd godidog
Croeso i siaradwyr Cymraeg gan gynnwys dysgwyr o bob lefel

Welsh Language guided walk along the coast and the banks of Afon Dysynni
10km circular and flat walk full of history, nature and great views
Welcome to Welsh speakers including learners of all levels



Gorsaf Tywyn | 9.30yb | Dydd Iau Rhagfyr 11eg

Trên o Aberystwyth 8.27yb | Trên o Bwllheli 7.24yb

Cofrestru: cered@ceredigion.gov.uk / ifan@menteriaithgwynedd.cymru

AR GERAD: PORTHMADOG

Taith gerdded Gymraeg ar hyd Llwybr Arfordir Cymru i Gricieth
10km cymharol wastad llawn hanes, natur a golygfeydd godidog
Croeso i siaradwyr Cymraeg gan gynnwys dysgwyr o bob lefel

Welsh Language guided walk along the Wales Coast Path to Cricieth
10km fairly flat walk full of history, nature and great views
Welcome to Welsh speakers including learners of all levels



Gorsaf Porthmadog | 11yb | Dydd Sadwrn Tachwedd 1

Trên o Aberystwyth 8.27yb | Trên o Bwllheli 9.34yb

Cofrestru: cered@ceredigion.gov.uk / ifan@menteriaithgwynedd.cymru

CLWB Y DDERWEN

CLWB SGWRSIO I DDYSGWYR YN ARDAL LLANIDLOES
CHAT CLUB FOR WELSH LEARNERS IN LLANIDLOES

Cyfle am sgwrs gyda
dysgwyr Cymraeg eraill

Bob bore dydd Llun, 10.30am
Neuadd y Dre, Llanidloes
£2 - dewch â phaned efo chi!

Manylion gan Sue Hyland:
sueh52@btinternet.com

Lleoliad
Newydd
-
New Venue!



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

siop siarad

Cyfle anffurfiol i ymarfer eich Cymraeg a
dysgu mwy am yr iaith

An informal opportunity to practice your
Welsh and learn more about the language

3RD WEDNESDAY OF THE MONTH
3YDD DYDD MERCHER Y MIS
2-4PM & 7- 9PM

Siop Cwlwm
33 Bailey Street,
Croesoswallt / Oswestry, SY11 1PX
post@siopcwlwm.co.uk
01691 680401 / 07814 033759



Fridays
11am-12pm

Welsh
Conversational
Group

Llyfrgell Croesoswallt
Oswestry Library

Free, but please
book your place

GRWP SGWRSIO

Caffi'r Hen Orsaf

Y Trallwng / Welshpool

Cyfle i sgwrsio gyda ddysgwyr o bob lefel a siaradwyr naturiol yn y Gymraeg!

Chat with learners of all levels and natural speakers in Welsh!



14:00 - 16:00

Dydd Iau 9 a 23 Hydref 2025
(wedyn ar yr pedwerydd ac ail ddydd Iau bob mis)

Thursday 9 and 23 October 2025
(then on the fourth and second Thursday of each month)

Cysylltwch â **Diane Jones** am fwy o wybodaeth ar:
Contact Diane Jones for more information on:
dianestirling723@btinternet.com

DYSGU SIARAD CYMRAEG

 Are there any **Welsh Language Learners** out there who would like to meet up with a few Welsh speakers to practise conversational Welsh?

If interested, we meet at the Aberhafesp Community Centre at the Friday Pop Up Coffee Mornings at 11.00 am on the 2nd and 4th Friday of each month.
We would love to see you.

Digwyddiadau Sir Gâr

PANED A SGWRS CAERFYRDDIN

Speak or learning
Welsh?
Come along to practice
and chat!

Every Thursday
1-2 o'clock
Yr Egin

For more information contact f.hann-jones@uwtsd.ac.uk



PANED A SGWRS CAERFYRDDIN

Siarad neu'n dysgu
Cymraeg?
Dewch i ymarfer a
sgwrsio!

Pob Dydd Iau
1-2y.p
Cegin yr Egin

Am fwy o wybodaeth f.hann-jones@pcydd.ac.uk



 **CWRW & CHLONC**

CYFLE I YMARFER EICH CYMRAEG DROS BEINT

POB NOS IAU AM 5:30PM **BEER PARK, DAFEN, LLANELLI**

 **AWR O GYMRAEG**

WELSH HOUR

10:00yb

MERCHER /WEDNESDAY

COME AND PRACTICE YOUR WELSH OVER COFFEE

CYFLE I YMARFER A SGWRSIO YN GYMRAEG DROS GOFFI



Pob Pythefnos - Fortnightly

Siop Lyfrau'r Light House

69 Station Road, Porth Tywyn, SA16 0SL

Digwyddiadau Sir Gâr

TEITHIAU I DDYSGWYR GYDA:
TOURS FOR LEARNERS WITH:

S4C

BBC
CYMRU
WALES

CANOLFAN
S4C
YR EGIN

RONDO



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Dewch am daith, dysgu mwy am ein
rhaglenni, ac ymarfer eich Cymraeg.

Come for a tour, learn more about our
programmes, and practise your Welsh.

DYDD MERCHER
15 HYDREF 2025
18.30

Addas ar gyfer dysgwyr
lefelau Canolradd,
Uwch a Gloywi.

WEDNESDAY
15 OCTOBER 2025
18.30

Suitable for learners at
Intermediate, Higher
and Proficiency levels.

DEWIS O LEOLIADAU:

- BBC Cymru: Sgwâr Canolog, Caerdydd
- Canolfan S4C: Yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin
- Set Rownd a Rownd: Stiwdios Ffilm Aria, Llangefni

Am ragor o wybodaeth,
ac i archebu lle ar
daith, ewch i:
www.s4c.cymru/wdd

CHOICE OF VENUE:

- BBC Cymru Wales: Central Square, Cardiff
- Canolfan S4C: Yr Egin, College Road, Carmarthen
- Set of Rownd a Rownd: Aria Film Studios, Llangefni

For more information,
and to book a place
on a tour, go to:
www.s4c.cymru/wdd

Digwyddiadau Sir Gâr

Paned a Sgwrs
Porth Tywyn

Bob pythefnos ar ddydd Mercher
10:00-11:00

Lighthouse Bookswap
Porth Tywyn

68 Station Rd, Burry Port SA16 0LW

An opportunity to practice and improve your Welsh



Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..

COFFI A CHLONC **COFFEE AND CHAT**

Pob dydd Iau am 10.30yb
Every Thursday at 10.30am

Ar | On: Zoom 

Cyfle i sgwrsio dros ddishedd mewn awyrgylch hamddenol. Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere. Suitable for Welsh speakers and learners.

I gofrestru | To register:
ymholiad@mgsg.cymru



BEER PARK, LLANELLI

CWRW A CHLONC

CYFLE I YMARFER EICH CYMRAEG DROS BEINT

A CHANCE TO PRACTICE YOUR WELSH OVER A PINT

IAU - THURS 5:30PM

derek@mcge.org.uk am fwy o fanylion - for more details



Paned a Sgwrs

Y Cwtsh, Pontyberem

2-3pm
Gwener

Y Cwtsh, Pontyberem

An opportunity to practice and improve your Welsh



Digwyddiadau Sir Gâr

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cyflwyno | introducing..

PANED A SGWRS CUPPA AND CHAT

Pob dydd Mawrth am 10yb
Every Tuesday at 10am

Yn | At: **Donuts & Dragons**, Stryd y Brenin | King Street,
Caerfyrddin | Carmarthen

Cyfle i sgwrsio dros ddishedd mewn awyrgylch hamddenol.
Addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.
A chance to chat over a cuppa in a relaxed atmosphere.
Suitable for Welsh speakers and learners.

I gofrestru | To register:
mari@msgsg.cymru

Collegysylfa'n gysylltu gyda
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Mwynhau'r
Gymraeg

Menter
Gorllewin Sir Gâr

CYMRU
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

DONUTS & DRAGONS
DONUTS AND DRAGONS
DONUTS AND DRAGONS

MENTHAU IATH
MENTHAU IATH

Uywodraeth Cymru
Welsh Government



Club Clonc

SESIYNAU ANFURFODOL I YMARTHUR EICH CYMRAEG NEU CYFLE I AIL- AFIEL
YN EICH CYMRAEG.
INFORMAL SESSIONS TO PRACTISE YOUR WELSH.
POB DYDD LLUN/ EVERY MONDAY
14.00PM
PABLIWN PENYGOES

Cysylltwch â'r swyddfa am fwy o fanylion | Contact the office for more information
01269871600 | alan@mcge.org.uk

MENTHAU IATH
MENTHAU IATH

MENTHAU IATH
MENTHAU IATH

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr
yn cyflwyno | introducing..

PANED A PHAPUR CUPPA AND PAPER

Dydd Mercher (bob pythefnos) am 12yp
Wednesday (Fortnightly) at 12pm

Amgueddfa Wlân | Wool Museum,
Drefach Felindre

Cyfle i sgwrsio dros
ddishedd mewn
awyrgylch hamddenol.
Addas i siaradwyr
Cymraeg a dysgwyr.
A chance to chat over
a cuppa in a relaxed
atmosphere. Suitable for
Welsh speakers
and learners.

I gofrestru | To register:
yholiad@msgsg.cymru

Mwynhau'r
Gymraeg

Menter
Gorllewin Sir Gâr

CYMRU
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

MENTHAU IATH
MENTHAU IATH

Uywodraeth Cymru
Welsh Government

Hanes ein Dysgwyr

Gwibdaith i Fferm Bremendy Isaf, Sir Gâr



Aeth grŵp o ddysgwyr o'n hardal i ymweld â Bremenda Isaf ger Llanarthne'r wythnos diwethaf. A group of learners from our area went to visit Bremenda Isaf near Llanarthne last week.

Yn dilyn taith dywys o gwmpas y fferm, ymunodd y grŵp â gweithdy dan arweiniad y Prifardd Aneirin Karadog i greu cerdd, a dyma hi: Following a guided tour around the farm, the group joined a workshop under the lead poet Aneirin Karadog to create a poem, and here it is:

**Ar ffarm Bremenda Isaf
lle gallwn flasu pelydrau'r haul,
lle mae'r pridd yn bwydo atgofion,
lle mae'r glaw yn iro meddyliau,
lle mae'r blodau a'r llysiau mewn seiat,
lle mae'r gwreiddiau'n tynnu pawb ynghyd
mae geiriau'n cael eu hau,
a'r Awen yw ein gwrtaith,
ac mae'r Gymraeg yn tyfu.**

Mae'r fferm wedi bod yn rhan o ystâd Ffermydd Sirol Sir Gaerfyrddin ers yr 1970au, un o nifer o ffermydd o'r fath sy'n darparu llwybr pwysig i mewn i ffermio i ddarparu

ffermwyr na fyddent fel arall yn gallu cael eu troed yn y drws. Nawr, mae'r Cyngor Sir, gyda chefnogaeth cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, wedi neilltuo cyfran o'r fferm i dyfu llysiau a ffrwythau ffres i blant ysgol a phobl mewn gofal, gyda gwaith ar droed ar hyn o bryd i weld sut y gallai'r fferm gyfan ddod yn fodel o amaethu cymysg adfywiol. The farm has been part of the Carmarthenshire County Farms estate since the 1970s, one of many such farms which provide an important route into farming for prospective farmers who would otherwise not be able to get their foot in the door. Now, the County Council, with the support of the UK Government's Community Prosperity fund, has set aside a portion of the farm to grow fresh vegetables and fruit for school children and people in care, with work currently underway to see how the whole farm could become a model of regenerative mixed farming.

Diolch i Sam Jones, Cydlynnydd Sir Gâr am drefnu'r ymweliad ac i Richard Vale, Tiwtor am yr adroddiad.

Hanes ein Dysgwyr



Learn Welsh - Ceredigion Powys Sir Gâr

Published by Cêt Morgan · Just now ·

Ni mor falch o'r prosiect yma drwy ein gwaith gyda [Urdd Gobaith Cymru](#). Diolch arbennig i ein tiwtor Elin Rowlands. [Prifysgol Aberystwyth Dysg...](#) See more



S4C Dysgu Cymraeg

September 30 at 1:30 PM ·

"A phan gyrhaeddodd ni a gweld pa mor gyfeillgar mae'r bobl yma a sut maen nhw'n croesawu ni, cyffyrddodd â'n calonnau ni. Ac maen nhw wedi dysgu'r iaith i ni!"

Daeth Luda, Albina a Natalya a'u teuluoedd i Gymru i ddianc y rhyfel yn Wcráin. Dechreuon nhw weithio yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog - ac maen nhw'n dysgu Cymraeg! 🇺🇦 🇬🇧 ❤️

"And when we arrived and saw how friendly the people here are and how they welcome us, it touched our hearts. And they have taught us the language!"

Luda, Albina and Natalya and their families came to Wales to escape the war in Ukraine. They started working at Gwersyll yr Urdd Llangrannog - and they are learning Welsh! 🇺🇦 🇬🇧 ❤️

Cofiwch eich bod yn gallu gwyllo gydag is-deitlau Cymraeg neu Saesneg. Neu beth am wyllo heb is-deitlau?!

Remember that you can watch with Welsh or English subtitles. Or why not watch without subtitles?!

[#DysguCymraeg](#) [#learnwelsh](#) [#ukraine](#) [#cymru](#) [#urdd](#)